
# Glas

Rhif 211
Medi 2025
Llén natur
Cymdeithas Edward Llwyd
Bwletin misol


Cyhoeddir Glas gan Gymdeithas Edward Llwyd




**Mae'r rhifyn hwn yn cynnwys adnodd i blant, athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn**

Cysylltwch â ni trwy **bwletinglas.llennatur@gmail.com**

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wicipedia



Dilyn y machlud prydferth
Ffordd y Migneint efo mynyddoedd y Moelwyn o'n blaen yn y pellter. Hyfrydwch perffaith!
**Del D'Aubray**




Cerdyn a dderbyniais gan holl blant yr ysgol ar fy ymddeoliad y diwrnod olaf cyn y gwylia haf. Cerdyn arbennig gan eu bod nhw yn gwybod gymaint o ddiddordeb sydd gen i mewn Byd Natur. Byddaf yn ei drysori.
**Netta Pritchard**



**Caroll Ann Morris**



Hwn i fi! Giff yn edmygu’r machlud!
**Gill Brown**



**Wendy Jones**

Pigiadau fi a coes y gŵr, Mehefin - Awst.
Dim syniad be oedd yn gyfrifol.
**Eirlys Edwards-Behi**



Yr india corn cyntaf i mi dyfu erioed. Cobiau melyn yn tyfu ffŵl-sbîd ar y funud (18 Awst) **DB**





# *Beth yw’r haf i mi?*


# Haf 2025 - yn gryno

**Dyma'r ddau gyfnod pan gawson ni don-gwres (yn ôl y diffiniad) yn Waunfawr. Mae trothwy ton gwres** ('heat wave') **yn digwydd pan fydd o leiaf dri diwrnod uwchlaw 25 °C ar draws llawer o'r wlad.**

**Mae gan Lundain Fwyaf drothwy o 28°C. Pedwar ton-gwres gafwyd yng ngweddill Prydain.**













20 Awst 2025 ■ Lluniau Dafydd Richard Hughes

## Adnabod y Mentyll

Pedwar glöyn byw o uwchben Betws yn Rhos heddiw. **Mantell Goch, Mantell Paun, Mantell Garpiog** a **Trilliw Bach**. Mae'r pumed (**Mantell Dramor**) wedi ei ychwanegu:
















## 'Clwy gwair' … ynteu 'clwy paill'?

**Cwestiynau:** 'Clwy gwair'… ynteu 'clwy paill'? Onid y CLWY PAILL fyddai'n fwy addas i'r cyflwr erbyn hyn? Beth yw eich profiad chi o'r clwy paill?



Paill o amrywiaeth o blanhigion cyffredin: blodyn yr haul (*Helianthus annuus*, sfferigau pigog bach, pinc wedi'i lliwio), gogoniant y bore (*Ipomoea purpurea*, sfferigau mawr gyda cheudodau hecsagonol, gwyrdd mintys wedi'i liwio), celyn y gwair (*Sildalcea malviflora*, sfferigau pigog mawr, melyn wedi'i liwio), lili (*Lilium auratum*, siâp ffa, gwyrdd tywyll wedi'u liwio), briallu (*Oenothera fruticosa*, siâp trybedd, coch wedi'u lliwio) a ffa castor (*Ricinus communis*, sfferigau llyfn bach, gwyrdd golau wedi'u lliwio). Mae'r ddelwedd wedi'i chwyddo tua x500, felly mae'r gronyn siâp ffa yn y gornel chwith isaf tua 50 um o hyd.
**@ Cyfleuster Microsgop Electron Dartmouth, Dartmouth (hawliau rhydd)**

Mis Mehefin yw tymor y clwy gwair - mis y cynhaeaf gwair. Ond sulwair, nid gwair, yw'r prif gynhaeaf erbyn hyn a dydi'r cnwd hwnnw ddim yn cael cyfle i beillio. Onid y CLWY PAILL fyddai'n fwy addas i'r cyflwr erbyn hyn? Beth yw eich profiad CHI o'r clwy paill?

'Dwi **(DB)** wedi dioddef o'r clwy' gwair ym mis Mehefin ers pan oeddwn yn 12 oed (1960) pan oedd tymor y cynhaeaf gwair yn ei anterth a chynhaeaf y silwair prin wedi ei ddatblygu o gwbl. A bore 'ma (16 Mehefin 2025), yng nghanol y gweiriach blodeuol ar y clawdd llanw ym morfa Dinlle, mi gefais fy nogn cyntaf eleni o'r aflwydd - er nad yw hanner cyn waethed ag ers talwm.

Ond 'dwi wedi sylwi yn y blynyddoedd diwethaf ar y son cynyddol am BAILL COED yn poeni pobl ym misoedd Ebrill a Mai - rhywbeth nad oes gennyf gof amdano ers talwm cyn i silwair ddod i fri.

### Mwy o gwestiynau:

- **1.** Ydi tymor y clwy paill wedi ymestyn o fis Mehefin i fisoedd y gwanwyn ac i baill coed?
- **2.** Os felly, tybed a allasai hyn fod ynghlwm wrth alergeddau newydd ar led yn ein cenadlaethau iau.
- **3. Ac os felly, pam?**

**BETH YW EICH PROFIAD CHI? Cofiwch gyfleu syniad o'ch oedran.** Dyma fy llinell amser ddancaniaethol o'm mhrofiad i o'r cyflwr ('dwi'n 77 mlwydd oed, wedi fy ngeni yn 1948) gydag ychydig o ymchwil i hanes porthi da byw dros y gaeaf:

**Cywain y gwair yn y Canol Oesoedd:** Faint o'r boblogaeth yn y cyfnod hwn oedd yn dioddef o alergedd tuag at baill yn enwedig paill gwair ym mis Mehefin? Os oedd yn bod o gwbl mae'n rhaid bod rhyw gofnod yn yr hengerddi a hen ddogfennau.



Juni [Mehefin], Brevarium Grimani, [Buchedd y Saint yn ôl Grimani] (Flemaidd) tua 1510 **WiciMedia: hawliau rhydd**

Mae'n werth tynnu sylw at y manylion **– a)** ffens bren (cyn oes weiren lefn) yn amgylchynnu'r cae gwair i gadw da rhag pori'r cnwd tra ei fod yn tyfu; **b)** gwaneifiau yn cael eu chwalu'n rhenciau i sychu (gwaith y merched gyda phicwarch); **c)** pengliniau tyllog y gŵr yn y canol yn awgrymu gwaith penglinio; **ch)** miniogi pladur efo stric (gŵr uchaf ar y dde); **d)** pawb a'i res!

**Dechrau'r cyfnod modern:** Wele eto gwahaniaethu rhywedd y gwaith. Hefyd y dillad trwsiadus, beias efallai cefndir yr artist.



**Haymakers** *is an oil on canvas genre painting by the British artist George Stubbs, from 1785 It depicts a group of farmworkers engaged in haymaking in the English countryside.*

**Cyn 1960:** Roedd y cynhaeaf gwair yn rhan o fywyd cefn gwlad Cymru tan yn ddiweddar fel y bu ers canrifoedd gyda ffermydd yn dod

at ei gilydd i gywain y gwair ym mis Mehefin er mwyn creu bwyd i wartheg dros y gaeaf. Cyfeirid amlaf at y symptomau dan sylw fel ‘anwyd haf’. Arferai’r botanegydd Peter Benoit o’r Bermo, dioddefwr ar y pryd, alw’r symptomau yn *summer cold*. Ond nid anwyd ond alergedd oedd hwn – roedd llysnafedd y trwyn yn glir a dihaint.

O ran bywyd gwyllt y caeau gwair, roedd y rygarug *(Crex crex)* eisoes ar drai – tybed a oedd y tractor yn hanner cyntaf y ganrif ddiwethaf, a mecaneiddio’r cynhaeaf ar ôl canrifoedd o ddefnyddyddio ceffylau, wedi bod yn anfantais i’r rygaryg. Dyma dystiolaeth gan **Dylan Parry** o genhedlaeth hŷn (sef ei fodryb) yn amlwg yn cofio aderyn oedd wedi mynd yn anghof erbyn y genhedlaeth nesaf: “pan oeddwn ni yn blentyn ac yn byw yn Waunfawr [yn y 50au] a phan oeddwn ni yn swnllyd roedd fy modryb yn deud fy mod i ‘fel rag-a-rug’. Gofynais iddi be ydi rag-a-rug. ‘Deryn’ medda hi. Wedi meddwl erioed oedd yna ffasiwn dderyn”.




*Hay Making at Dwyran 1964. Lovely backdrop of Moel Eilio and Mynydd Mawr (Elephant mountain to some of us). Nice crop of hay to boot.* **Tom Jones-Parry** (Cae Glanrafon-bach wedi ei dynnu o lôn Pen Cefn) **DB**

Yn amlwg mai injian ladd gwair PTO sydd tu ôl i’r tractor. Nid hen injian geffyl wedi ei diweddaru - roedd yna sêdd ar honno a rhywun i eistedd arni i godi’r llafn ar ben y dalar. Roedd modd gwneud hyn i gyd oddi ar y tractor pan ddaeth yr offer i weithio oddi ar *“power-take-off”* y tractor. (Gwell egluro hyn i’r cenhedlaethau sy’n ein dilyn!) **Ifan Roberts**




Rhegen yr ŷd, erioed wedi clywed un, fy nhad yn son amdanynt yn yr hen gaeau gwair **Kevin Davies, Dolgellau**

**Y 60au**: symptomau yn dechrau yn ddiffael ym mis Mehefin. ’Dwi’n cofio’r achlysur cyntaf, finna wedi treulio’r awr ginio pan oeddwn yn 12 oed (1960) yn mwynhau’r haul yn ngweiriach talar pellaf cae pêl droed ysgol Caernarfon. Cyrraedd gwers gyntaf y prynhawn (mathemateg efo Mr John Giffiths dwi’n cofio) yn llawn ‘anwyd’ a llygaid dolurus. Deall wedyn mai clwy gwair oedd hwn - tisian trwm, llysnafedd clir yn y trwyn, llygaid yn goch, yn cosi ac yn chwyddedig ac yn fyr fy ngwynt.



Y gwair yma wedi'i rencio yn barod i'w felio - ogla gwair hen ffasiwn ar ddiwrnod braf yn 'Stiniog **Mai Jones**

**Yr 80au:** roedd y degawd hwn yn drobwynt i gefn gwlad Cymru a thu hwnt. Er y bu i ddull o wneud silwair fod yn wybyddus ers degawdau cyn hyn, dim ond peiriannau cryfach a byrnau mwy yr 80au a ganiataodd gyfundrefn o gywain tri neu bedwair cynhaeaf y flwyddyn o wair gwyrdd gwlyb cyn iddo flodeuo a pheillio. Effeithiodd hyn ar y gylfinir, cylchoedd bywyd pryfed, bwyd ystlumod, ac yn fwy dadleuol, y clwy gwair.



Y gwair (silwair) yn ei RHENCIAU (Waunfawr 18 Mehefin 2020), Caeau Glanrafon-bach eto yn y pellter, ail neu drydydd cnwd - gweler y llun o'r 60au.



Golygfa'r 21ed ganrif (5 Mawrth 2007, Waunfawr)

**Fel yr aeth paill gwair yn brinach, ac alergeddau yn fwy, tybed ydi'r clwy gwair wedi newid ei dymor i ddechrau mis Ebrill gyda blodeuo coed a'r clwy gwair wedi troi yn glwy'r paill.**

## Y gwalchwyfyn a newidiodd ei liw



Gwalchmai, Môn 18/07/2025 - Dwi 'di rhyfeddu! Wedi ffindio 2 lindysen gwalchwyfyn helyglys neithiwr tra'n garddio, un yn werdd a'r llall yn frown gyda'r marciau clyfar fel llygaid arni. Wedi cadw nhw mewn basged fach i ddangos i'r plant yn y bore, cyn ei rhyddhau i'r ardd… a wedi synnu i weld bod yr un werdd wedi troi yn frown dros nos! Anodd credu na'r un lindysyn yw hi! **Nia Dooley**

## Derbyn Glas

Mae Bwletin Llên Natur ar gael yn rhad ac am ddim, yn ddigymell pob mis!


Glas

Cysylltwch gyda ni:

bwletinglas.llennatur@gmail.com


# Glaw Ionawr-Awst 1912, Bangor

**Wrth i Elinor Elis-Williams wirfoddoli i helpu catalogio dogfennau yn Adran Hen Ddogfennau ac Archifau, Prifysgol Bangor, cafodd achos i rannu cofnodion tywydd y Sefydliad o'r flwyddyn cofiadwy o wlyb 1912 (a ddilynodd blwyddyn gofiadwy o boeth 1911).**


Bangor Rainfall
from January 1st 1912 to Sept. 12th 1912

| | | |
|---|---|---|
| January | 2.72 | Monthly totals for first six months |
| February | 2.35 | |
| March | 6.31 | |
| April | .55 | |
| May | 2.28 | |
| June | 5.38 | |
| July 1st | .04 | |
| 2 | .00 | |
| 3 | .00 | |
| 4 | .00 | |
| 5 | .00 | |
| 6 | .00 | |
| 7 | .11 | |
| 8 | .00 | |
| 9 | .02 | |
| 10 | .50 | |
| 11 | .43 | |
| 12 | .24 | |
| 13 | .00 | |
| 14 | .00 | |
| 21 | .05 | |


0/0/1912 Lle: gogledd Cymru
Ffynhonnell: Hugh Holland Jones
Nodiadau: *1912 & 1956 amongst the worst summers recorded in N Wales & UK for that matter.*




Dyma grynodeb graffig o'r data, mewn modfeddi mae'n debyg. Mae'n amlwg bod Ebrill 1912 yn eithriadol o sych mewn blwyddyn eithriadol o wlyb. Ond nid dyna'r unig beth cofiadwy am Ebrill 1912. Dyma fis suddo'r Titanic!

Mae yna lwyth o gofnodion am Ebrill 1912 (**TYWYDDIADUR**), llawer ohonyn nhw am y Titanic.

> 14/4/1912 Gogledd Iwerydd ■ *It was a cold and moonless night when the Titanic sank. All had been well until 11.40pm on 14 April 1912, when the crow`s nest lookouts sighted a large iceberg, 500m ahead. Despite desperate avoidance efforts the ship struck the iceberg, and in just over two and half hours the entire ship had sunk, with the loss of 1514 lives. Now new research reveals that the disaster may have been triggered by unusual weather in 1908.* (**THE GUARDIAN - WEATHERWATCH**)



RMS *Titanic* departing Southampton on 10 April 1912



Location of *Titanic* wreck

Dyma un arall nodweddiadol:

> *Ironically April 1912 had been the sunniest and driest on record, the Titanic enjoyed fine weather till its fateful rendezvous with a Greenland iceberg at 41N 56W."*

Ond aeth bywyd yn ei flaen. Dyma neges ar gefn cerdyn post yn awgrymu'r tywydd braf oedd mor eithriadol y flwyddyn hon:

> 27/4/1912 Lle: Abergwyngregyn Ffynhonnell: cerdyn post ■
> Nodiadau: *Lunchtime: We are sitting up by the falls - it looks lovely? I shall be very busy all the way back as I have seen several blossom trees and the girls think I shall have to climb them?"*
> (neges ar gefn hen cerdyn post yn dangos llun Bontnewydd Aber; marc post Aber, dyddiedig 27/4/1912)

Roedd yna gofnod arall o ddechrau'r mis hwn yn cofnodi gwyntoedd yn chwalu blodau'r coed ffrwythau:

> *The recent high winds sadly battered the blossom on the fruit trees; the damsons, not so far forward as some other trees, suffered least, and the beautiful wild cherries were, perhaps most damaged.*

Dwi'n ysgrifennu hyn o lith gan wrando ar Ddefod y Gwanwyn a gyfansoddwyd gan Stravinski yn 1930. Rhywsut mae'n rhyfedd o addas!

# Prosiect Llên Natur




# Siarad gyda'n gilydd

Lluniau Helen Flook - Dyluniad Dominig Kervegant